| | |
|---|---|
| CYFARFOD | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| DYDDIAD | **16 MEDI 2024** |
| TEITL | **DIWEDDARIAD RISG ARIANNU A CHYNLLUNIO AR GYFER PRISIAD 2025** |
| PWRPAS | **Diweddariad gan Richard Warden, actiwari'r gronfa ar y risgiau ariannu a chynllunio ar gyfer prisiad 2025.** |
| ARGYMHELLIAD | **Er gwybodaeth yn unig** |
| AWDUR | **Meirion Jones, Rheolwr Pensiynau** |

---

**1. Cyflwyniad**

Er mwyn helpu gyda'r gwaith o gynllunio ar gyfer prisiad 2025, mae ein actiwari wedi paratoi papur sy'n canolbwyntio ar risgiau cyllid yn yr amgylchedd presennol a pha opsiynau sydd ar gael i reoli'r risgiau hyn ac i fanteisio ar unrhyw gyfleoedd ym mhrisiad 2025. Gellir gweld copi o'r papur hwn yn **Atodiad A**.

**2. Cynnwys y papur**

Mae'r papur yn cynnwys sylwebaeth ar:

- Diweddariad cyllid - sut mae'r sefyllfa ariannu wedi esblygu ers 2022, beth yw'r prif ysgogwyr a'r negeseuon pwysig i'w ystyried.
- Yr amgylchedd ariannu presennol – sut mae'r newid economaidd wedi effeithio ar enillion a chwyddiant disgwyliedig yn y dyfodol a beth mae hyn yn ei olygu i'r gronfa.
- Risgiau cyllid allweddol – beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf ar risgiau ariannu allweddol fel hirhoedledd, hinsawdd a chyfamod cyflogwyr a beth ddylai'r gronfa fod yn meddwl amdano dros y cyfnod cynllunio cyn prisio.
- Cynllunio ar gyfer Prisiad 2025 – gyda'r prisiad llai na 12 mis i ffwrdd, pa opsiynau y dylid eu hystyried nawr i greu mwy o le ar gyfer gwneud penderfyniadau a chael gwared ar unrhy broblemau yn y flwyddyn brisio.

**3. Cyflwyniad**

Bydd Richard Warden, actiwari'r gronfa, yn cyflwyno canfyddiadau allweddol o'r papur yng nghyfarfod y pwyllgor.